| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 07/03/2021 |
| **Teitl:** | Strategaeth Gweinyddu Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Derbyn adborth gan y Bwrdd ar y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau newydd |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. Cyflwyniad

Mewn ymateb i'r Adolygiad Llywodraethu Da mae'r gronfa wedi bod yn adolygu ei threfniadau llywodraethu, gan gyfeirio at yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad.
Ar hyn o bryd nid oes gan y cynllun Strategaeth Weinyddol. Yr argymhelliad o'r adroddiad Llywodraethu Da oedd:

"Rhaid i bob awdurdod gweinyddu gyhoeddi strategaeth weinyddol.".

Hyd yn hyn bu'n fater o ddisgresiwn i'r gronfa a yw'n rhoi strategaeth ar waith. Er bod y Rheoliadau CPLlL eu hunain yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw Strategaeth o'r fath, pe bai cronfa yn dewis cael un, gall dyfnder ac ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau amrywio'n sylweddol.

Yn ogystal â chynhyrchu Strategaeth Weinyddu, mae angen sicrhau ei bod yn cael ei chyhoeddi a'i bod yn hygyrch ac yn cyflawni gofynion y Rheoliadau.

## 2. Beth yw amcanion allweddol y strategaeth weinyddol?

Prif amcanion y strategaeth hon yw sicrhau:

- Mae'r Gronfa a Chyflogwyr yn ymwybodol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau CPLlL ac wrth gyflawni swyddogaethau gweinyddol
- Mae'r Gronfa'n gweithredu'n unol â rheoliadau'r CPLlL ac yn cyd-fynd â'r Rheoleiddiwr Pensiynau o ran dangos cydymffurfiaeth a llywodraethu'r cynllun.
- Mae prosesau cyfathrebu ar waith i alluogi'r Gronfa a Chyflogwyr i ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn ymatebol â'i gilydd a phartneriaid eraill.
- Cedwir cofnodion cywir at ddiben cyfrifo hawliau pensiwn a rhwymedigaethau Cyflogwr, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a data yn cael eu cyfathrebu'n gywir, yn amserol ac mewn modd diogel sy'n cydymffurfio.
- Bod gan y Gronfa a chyflogwyr y cynllun sgiliau priodol a bod arweiniad/hyfforddiant yn ei le i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chyfrannu'n effeithiol at yr agenda pensiynau sy'n newid.

- Safonau'n cael eu gosod a'u monitro ar gyfer cyflawni gweithgareddau penodol yn unol â'r Rheoliadau.

3. **Beth sydd angen ei gynnwys yn y strategaeth weinyddol?**

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylid cynnwys yr eitemau canlynol yn y strategaeth weinyddu:

- gweithdrefnau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu rhwng yr awdurdod gweinyddu a chyflogwyr yn y Cynllun
- sefydlu lefelau perfformiad y disgwylir i'r awdurdod gweinyddol a chyflogwyr eu cyflawni wrth gyflawni eu swyddogaethau yn y Cynllun;
- gosod targedau perfformiad;
- Cytuno ar lefelau perfformiad a materion cysylltiedig, neu unrhyw ddulliau eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod gweinyddu;
- gweithdrefnau sy'n anelu at sicrhau bod yr awdurdod gweinyddu a'r cyflogwyr yn y cynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny ac ag unrhyw gytundeb ynghylch lefelau perfformiad;
- gweithdrefnau ar gyfer gwella'r modd y mae'r awdurdod gweinyddu a chyflogwyr yn y cynllun yn cyfathrebu â'i gilydd;
- unrhyw faterion eraill sy'n codi o'i strategaeth gweinyddu pensiynau y mae'n eu hystyried yn briodol; a
- unrhyw faterion eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod gweinyddu ar ôl ymgynghori â chyflogwyr yn y cynllun ac unrhyw bersonau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, sy'n addas i'w cynnwys yn y strategaeth honno.
-

**4. Strategaeth Weinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd**


Mae copi o Strategaeth arfaethedig Gwynedd i'w weld yn **atodiad A**.

Fel rhan o baratoi ar gyfer y prosiect llywodraethu da, rhannwyd copi drafft o'r strategaeth gyda Hymans Robertson er mwyn derbyn adborth.

Yn unol â'r argymhelliad Llywodraethu Da, cadarnhawyd bod y Strategaeth Weinyddu yn cyffwrdd â'r meysydd canlynol:

- Safonau gwasanaeth/ cytundebau lefel gwasanaeth
- Ymgysylltu a chyfathrebu
- Bodlonrwydd cwsmeriaid (aelodau a chyflogwyr).
- Perfformiad cyflogwr

Roeddent o'r farn bod y Strategaeth Weinyddol yn bodloni'r holl ofynion cyfredol a'r gofynion ychwanegol hynny sy'n deillio o'r adolygiad Llywodraethu Da:




**Gwerthfawrogwn adborth ar y Strategaeth gan y Bwrdd cyn i'r polisi gael ei rannu gyda'r Cyflogwyr a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w gymeradwyo.**

# Atodiad A

# Strategaeth Gweinyddu Pensiynau

**1. Cyflwyniad**

Dyma Strategaeth Gweinyddu Pensiynau (SGP) Cronfa Bensiwn Gwynedd (Y Gronfa) mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd (yr Awdurdod Gweinyddu).

Mae'r CPLlL yn gynllun statudol ac mae wedi'i lywodraethu gan reoliadau. Y rheoliadau presennol sy'n ymwneud â gweinyddiaeth yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r ddolen a ganlyn i wefan "LGPS Regulations and Guidance" y Local Government Association (LGA), yn darparu fersiwn gyfredol o Reoliadau CPLlL 2013, gan gynnwys newidiadau a wnaed ers hynny drwy ddiwygio offerynnau statudol:

lgpsregs.org/schemeregs/lgpsregs2013.php

Mae gofyn i'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y Gronfa gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n disodli a dilyn unrhyw ganllawiau rheoleiddio neu God Ymarfer a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau wrth weithredu ei rôl a'i gyfrifoldebau dan y rheoliadau hyn gan ystyried ansawdd, cyfanrwydd a phrydlondeb y data.

## 2. Gofynion rheoleiddio

Y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y Strategaeth hon yw Rheoliad 59 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, sy'n rhoi cyfle i Awdurdodau Gweinyddu ddarparu Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Gweler isod fanylion y gofynion rheoleiddio hyn:

**59.** - (1) Gall awdurdod gweinyddu baratoi datganiad ysgrifenedig o bolisïau'r awdurdod mewn perthynas â'r fath faterion â'r rhai a grybwyllir ym mharagraff (2), fel yr ystyria'n briodol ("ei strategaeth gweinyddu pensiynau"), a lle y mae'n gwneud hynny, mae paragraffau (3) i (7) yn gymwys.

(2) Y materion yw-

- (a) gweithdrefnau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu â chyflogwyr y Cynllun mewn perthynas ag ef fel **awdurdod gweinyddu** ("cyflogwyr ei Gynllun");
- (b) sefydlu lefelau perfformiad y mae disgwyl i'r **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr y Cynllun eu cyflawni wrth weithredu swyddogaethau eu Cynllun drwy -
  - (i) osod targedau perfformiad,
  - (ii) llunio cytundebau ynghylch lefelau perfformiad a materion cysylltiedig, neu
  - (iii) ddulliau eraill fel ag y mae'r **awdurdod gweinyddu** yn ei ystyried yn briodol;
- (c) gweithdrefnau sy'n ceisio sicrhau bod yr **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn a chyda cytundeb ynghylch lefelau perfformiad;
- (d) gweithdrefnau ar gyfer gwella'r cyfathrebu gan yr **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun i'r naill a'r llall am wybodaeth ynghylch y swyddogaethau hyn;
- (e) yr amgylchiadau lle y gall yr **awdurdod gweinyddu** ystyried rhoi rhybudd ysgrifenedig i unrhyw un o gyflogwyr ei Gynllun dan **reoliad 70 (costau ychwanegol sy'n codi o lefel perfformiad cyflogwyr y Cynllun)** gan bod perfformiad anfoddhaol y cyflogwr wrth gyflawni swyddogaethau ei Gynllun pan fo'n cael ei fesur yn erbyn y lefelau perfformiad a sefydlwyd dan yr is-baragraff (b);
- (f) adroddiadau blynyddol sy'n cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod gweinyddu yn ymdrin ag -
  - (i) y graddau y mae'r awdurdod hwnnw a chyflogwyr ei Gynllun wedi cyflawni'r lefelau perfformiad a sefydlwyd dan yr is-baragraff (b), a
  - (i) materion eraill o'r fath sy'n codi o'i strategaeth gweinyddu pensiynau fel yr ystyria'n briodol; ac
- (g) unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos i'r **awdurdod gweinyddu** ar ôl ymgynghori â chyflogwyr ei Gynllun ac unrhyw bersonau eraill yr ystyria'n briodol, i fod yn addas i'w cynnwys yn y strategaeth honno.

(3) Rhaid i awdurdod gweinyddu -

- (a) gadw ei strategaeth gweinyddu pensiynau dan adolygiad; a
- (b) gwneud addasiadau fel sy'n briodol yn dilyn newid materol yn ei bolisïau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth.

(4) Wrth baratoi neu adolygu a diwygio ei strategaeth gweinyddu pensiynau, rhaid i **awdurdod gweinyddu** ymgynghori â chyflogwyr ei Gynllun a phersonau eraill o'r fath yr ystyria'n briodol.

(5) Rhaid i awdurdod gweinyddu gyhoeddi -

(a) ei strategaeth gweinyddu pensiynau; a
(b) lle gwneir diwygiadau iddi, y strategaeth fel y'i diwygiwyd.

(6) Lle mae **awdurdod gweinyddu** yn cyhoeddi ei strategaeth gweinyddu pensiynau, neu’r strategaeth honno fel y'i diwygiwyd, rhaid anfon copi ohono i bob un o gyflogwyr ei Gynllun ac i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

(7) Rhaid i **awdurdod gweinyddu** a chyflogwyr ei Gynllun ystyried y strategaeth gweinyddu pensiynau wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Rheoliadau hyn.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at swyddogaethau **awdurdod gweinyddu** yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ei swyddogaethau fel cyflogwr y Cynllun.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r safonau perfformiad a'r arfer gorau y dylai'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y Cynllun anelu i'w cwrdd wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran y cynllun. Mae'n cael ei adolygu'n flynyddol a bydd yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau i:

- Y Rheoliadau CPLlL
- Polisïau y penderfynir arnynt gan yr Awdurdod Gweinyddu
- Arferion gweinyddol a weithredir gan y Cynllun a'i gyflogwyr wrth gyflawni ei swyddogaethau

Mae hefyd yn cynnwys atodlen o gostau gweinyddol ychwanegol yn unol â Rheoliad 70 Rheoliadau CPLlL 2013, sy'n darparu sgôp i gronfeydd pensiwn adennill costau lle mae costau ychwanegol yn cronni yn sgil lefel perfformiad cyflogwr. Adroddir am y lefelau perfformiad a gyflawnir gan y Gronfa a chyflogwyr y cynllun;

- fel rhan o'r Adroddiad Gweinyddu Pensiynau ym Mhwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau'r Awdurdod Gweinyddu
- yng nghyfarfodydd Bwrdd Pensiwn Gwynedd
- yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa

**70.** - (1) Mae'r rheoliad hwn yn weithredol lle, ym marn awdurdod gweinyddol, ei fod wedi cronni costau ychwanegol y dylid eu hadennill gan **Gyflogwr y Cynllun** yn sgil lefel perfformiad y cyflogwr hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau dan y Rheoliadau hyn.

(2) Gall yr **awdurdod gweinyddu** roi hysbysiad ysgrifenedig **i gyflogwr y Cynllun yn nodi-**

(a) rhesymau'r awdurdod gweinyddu dros ffurfio'r farn a grybwyllir ym mharagraff (1);
(b) y swm y mae'r awdurdod wedi ei bennu **y dylai cyflogwr y Cynllun ei dalu dan reoliad 69(1)(d) (taliadau gan gyflogwyr y Cynllun i awdurdodau gweinyddu)** o ran y costau hynny a'r sail a ddefnyddir i gyfrifo'r swm penodol hwnnw; a
(c) lle mae'r **awdurdod gweinyddu** wedi paratoi strategaeth gweinyddu pensiynau dan **reoliad 59**, darpariaethau'r strategaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i roi'r hysbysiad ac i'r materion yn is-baragraffau (a) neu (b).

Mae'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Gronfa (www.cronfabensiwngwynedd.cymru). Gwneir hyn ar ôl iddi gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn

ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Hefyd, cyflwynir copi i'r Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol yn Rheoliad 59.

## 3. Nodau'r Strategaeth

Nodau'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau yma yw:

- Cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth pensiwn o ansawdd uchel i aelodau'r Gronfa sy'n cael ei chyflwyno drwy arferion gwaith effeithlon
- Nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau perthnasol yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun
- Sicrhau bod y Gronfa'n gweithredu yn unol â rheoliadau CPLlL a'r Codau Ymarfer a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Nodi'r safonau ansawdd a pherfformiad sy'n ddisgwyliedig o'r Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr ei gynllun mewn perthynas â'r naill a'r llall
- Hyrwyddo perthnasau gwaith da a gwella effeithiolrwydd rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr ei gynllun er budd aelodau'r Gronfa
- Darparu fframwaith fel bod modd i gostau gweinyddol sy'n ymwneud â thanberfformiad sylweddol cyflogwyr i gael eu talu'n uniongyrchol gan y cyflogwr sy'n gyfrifol, yn hytrach na chael ei rannu ar draws yr holl gyflogwyr yn y Gronfa

Mae cyflwyniad effeithlon buddion y cynllun yn ddibynnol ar gael gweithdrefnau gweinyddol effeithiol yn eu lle rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun, yn bennaf trosglwyddo gwybodaeth gywir mewn perthynas ag aelodau'r cynllun, ar yr adeg briodol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi lefelau perfformiad disgwyliedig yr Awdurdod Gweinyddu a chyflogwyr y cynllun ac mae'n darparu manylion ynghylch monitro lefelau perfformiad.

Gweithredir y strategaeth o 1 Ionawr 2022 ar ôl ymgynghori â chyflogwyr y Gronfa ac fe barheir i'w hadolygu a'i diweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yn rheoliadau'r cynllun ac yn arferion gwaith y Gronfa.

Hefyd, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ei rôl o gynorthwyo'r awdurdod gweinyddu i sicrhau gweinyddiad effeithiol ac effeithlon y Cynllun, yn monitro gweithrediad y strategaeth hon.

## 4. Cadw Cofnodion

Mae cadw cofnodion yn rhan hanfodol o redeg cynllun megis y CPLlL. Mae goblygiad cyfreithiol ar y gronfa a'i chyflogwyr i goladu a chynnal data penodol sy'n allweddol i reoli'r cynllun.

Rhaid i Gronfa Bensiwn Gwynedd gadw cofnodion cywir, cyfredol a hir-dymor, o fewn paramedrau deddfwriaeth diogelu data, i sicrhau y gall lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa yn effeithlon i holl aelodau'r cynllun.

Mae cyflogwyr yn darparu'r data sydd ei angen ar y Gronfa a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cwrdd â'u goblygiadau cyfreithiol tuag at y cynllun.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Gronfa i roi gwybodaeth gyfredol ac amserol i'w haelodau ynghylch eu buddion, ac ni ellir rhoi hwn iddynt heb gael data gan gyflogwyr.

## 5. Datblygu gweinyddiaeth y Gronfa

**i-Connect**

Ers 2019, mae'r Gronfa wedi bod yn gweithio tuag at weithredu i-Connect yn llawn. Mae hwn yn fodiwl ychwanegol o lwyfan gweinyddu pensiynau Aquila Heywood. Mae'r modiwl i-Connect yn galluogi i gyflogwyr cynllun y Gronfa awtomeiddio trosglwyddiad data aelodau o'u systemau cyflogres i system gweinyddu pensiynau'r Gronfa (Altair) bob mis.

Drwy sefydlu cyflogwyr cynllun y Gronfa ar i-Connect, bydd y datrysiad effeithlon hwn yn:

- lleihau’r angen i fewnbynnu data sy'n ymwneud â phensiwn, â llaw
- galluogi i ddata gael ei ddilysu yn barhaus a datrys ymholiadau yn fwy amserol
- lleihau'r llwyth gwaith wrth gysoni ac adrodd ar ddiwedd blwyddyn
- sicrhau bod cronfa ddata aelodaeth sefydlog a chywir yn cael ei gynnal a'i gadw
- derbyn data yn unol â'r rheolau statudol gan osgoi'r risg o gamau gweithredu a chosbau ariannol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau am dorri'r cyfyngiadau amser deddfwriaethol a gofynion eraill

Mae cynnal cofnodion cyfredol am aelodau yn sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cyfrifo yn gywir a bod gwell gwasanaeth yn cael ei ddarparu i aelodau'r cynllun.

Mae'r strategaeth hon yn gweithredu terfyn amser o 31 Rhagfyr 2021 er mwyn i holl gyflogwyr y cynllun gael cychwyn gweithredu i-Connect a throsglwyddo ei gyflwyniadau data yn fisol.

**Hunan-wasanaeth Aelodau: Fy Mhensiwn Ar-lein**

Mae'r Gronfa wedi cyflwyno porthol diogel, ar-lein fel bod modd i aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr weld eu gwybodaeth pensiwn, gwneud nifer o addasiadau i'w data a chwblhau tafluniadau buddion ar-lein.

"Fy Mhensiwn Ar-lein" yw enw'r gwasanaeth ar-lein hwn, ac mae disgwyl y daw'r porthol hwn yn ddull cyfathrebu diofyn y Gronfa gyda'i haelodau.

Bydd y Gronfa yn hyrwyddo'r gwasanaeth hwn i aelodau'r cynllun a chaiff hyn ei adlewyrchu yn Strategaeth Gyfathrebu'r Gronfa. Bydd disgwyl i gyflogwyr gynorthwyo i hyrwyddo'r gwasanaeth "Fy Mhensiwn Ar-lein

" ac annog eu gweithwyr sy'n cyfrannu i'r CPLlL i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

## 6. Rolau a chyfrifoldebau

Bydd nodau'r strategaeth hon yn cael eu cyflawni drwy:

- roi diffiniad clir o rolau perthnasol cyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- gosod safonau gwasanaeth clir a chyflawnadwy ar gyfer y swyddogaethau a wneir gan gyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- gosod canllawiau gweithdrefnol clir ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol rhwng cyflogwyr y cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu
- monitro cyflwyniad y gwasanaeth, adnabod perfformiad gwael a sefydlu llwyfan ar gyfer darparu cefnogaeth i wella perfformiad lle bo'r angen

## 7. Rolau a chyfrifoldebau'r cyflogwr

Y prif gyfrifoldebau ar gyfer y cyflogwr yw:

- **Cyfathrebu'r CPLlL i'r staff sy'n gymwys**
- **Cymhwyso'r cynllun drwy'r casgliad a thalu'r lefelau cywir o gyfraniadau pensiwn**
- **Adrodd am wybodaeth a data i'r Gronfa Bensiwn fel sydd wedi'i nodi yn y strategaeth hon**

Mae cyflawni gweinyddiaeth effeithlon a chost-effeithiol yn ddibynnol ar bartneriaeth cydweithio llwyddiannus rhwng y Gronfa Bensiwn ac unigolion allweddol o fewn neu drwy gynrychioli cyflogwr y cynllun.

Cefnogi a datblygu'r bartneriaeth gydweithio â'r Gronfa; gofynnir i bob cyflogwr ddynodi prif gyswllt i gysylltu â'r Gronfa ynghylch cyfrifoldebau'r cyflogwr yng ngweinyddiaeth y cynllun.

Cyfrifoldebau'r cyflogwr yw sicrhau bod safonau a lefelau'r gwasanaeth wedi'u nodi yn y Strategaeth Gweinyddu yn cael eu cyflawni ac y cydymffurfir â'r cyfrifoldeb rheoleiddio. Mae'r rhan hon yn rhoi amlinelliad cryno o gyfrifoldebau allweddol y cyflogwr, ynghyd â rhestr mwy manwl o gyfrifoldebau pob cyflogwr cynllun sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, a'r safonau perfformiad y mae disgwyl i gyflogwyr eu cyflawni fel bod modd i'r Gronfa gyflawni gwasanaeth effeithlon.

**Crynodeb o ofynion allweddol cyflogwyr**

- Sicrhau bod y safonau a'r lefelau gwasanaeth wedi'u nodi yn y Strategaeth Gweinyddu hon yn cael eu cyflwyno ac y cydymffurfir â'r cyfrifoldeb rheoleiddio. Yn gryno, y prif elfennau yw:
  - Taliad misol ac adrodd am gyfraniadau pensiwn
  - Cyflwyno trosglwyddiadau data i-Connect yn fisol
  - Cyflwyno Dychweliadau Diwedd Blwyddyn cywir lle mae angen
  - Hysbysiad o wybodaeth dechreuwr / ymunwr newydd
  - Newidiadau i fanylion personol
  - Newidiadau i fanylion cyflogaeth
  - Manylion absenoldeb di-dâl
  - Hysbysiadau am ymadawyr
  - Darparu tystiolaeth yn cefnogi penderfyniadau cyflogwyr sy'n ymwneud â phensiwn (Er enghraifft, ymddeoliadau ar sail iechyd, ymddeoliad hyblyg, diswyddo ar sail gormodedd, rhyddhau buddion yn gynnar i aelodau gohiriedig ar sail dosturiol neu salwch)

- Cyfeirio'r cyfathrebiadau at staff priodol yn y cyflogwr (Er enghraifft, Adnoddau Dynol, timau Cyflogres, Cyfarwyddwr Cyllid)
- Trefnu bod cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r CPLlL yn cael eu dosbarthu i aelodau'r cynllun, pan a phryd bo'r angen.
- Cynorthwyo a chysylltu â'r Gronfa ar weithgareddau hyrwyddo, gan gynnwys annog aelodau i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth "Fy Mhensiwn Ar-lein".
- Hysbysu'r Gronfa o unrhyw wasanaethau sy'n cael eu hallanoli sy'n ymwneud â throsglwyddo staff CPLlL cymwys drwy TUPE cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau y gellir cynnwys gwybodaeth pensiwn priodol mewn dogfennau tendr, a chymhwysedd gweithwyr am aelodaeth CPLlL a bod eu haelodaeth yn cael ei warchod.
- Hysbysu'r Gronfa o newidiadau i drefniadau cyflawni gwasanaeth (e.e. newid darparwr cyflogres)
- Cysylltu â'r Awdurdod Gweinyddu a'i gynorthwyo i adnabod, egluro, adrodd a datrys tor-amodau statudol, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus (cod ymarfer 14)

**Cyfrifoldebau cyflogwyr - Rolau, Swyddogaethau a Thargedau Perfformiad**

Mae'r tablau a ganlyn yn nodi mewn mwy o fanylder beth yw rolau pob cyflogwr mewn perthynas â gweinyddiaeth y cynllun.

Mae'r safonau perfformiad a ddisgwylir yn cael eu mynegi fel targedau sy'n ddisgwyliedig mewn amgylchiadau arferol. Mewn eithriadau, derbynnir efallai na fydd yn bosib cyflawni'r targed a nodwyd ac fe fabwysiadir dull pragmatig. Mae hyn yn amodol ar gyflogwyr yn gwneud pob ymdrech i gwrdd â'r safonau disgwyliedig lle bynnag y bo hynny'n bosib.

**Rôl a Chyfrifoldeb y Cyflogwr**

| Swyddogaeth/Tasg | Targed Perfformiad |
|---|---|
| **Cysylltiadau Cyflogwr** | |
| Dynodi a chadarnhau'r cyfrifoldeb(au) enwebedig (Cyflogres, AD. Cyllid), i weithredu ar ran y cyflogwr mewn perthynas â gweinyddu'r CPLlL. | O fewn 1 mis o ddod yn gyflogwr y cynllun neu o fewn 1 mis o newid mewn cynrychiolwr/cynrychiolwyr enwebedig. Manylion i'w cyflwyno ar e-bost i pensiynau@gwynedd.llyw.cymru |
| Penodi person (y dyfarnwr) i ystyried anghydfodau dan gam 1 y broses datrys anghydfod pensiynau mewnol (IDRP) a darparu manylion cyswllt llawn a chyfredol i'r Gronfa | Hysbysu'r Gronfa o fewn 30 diwrnod o ddod yn gyflogwr y cynllun neu ar ôl i'r dyfarnwr presennol ymddiswyddo |
| Penodi Ymarferydd/Ymarferwyr Meddygol Cofrestredig Annibynnol (IRMP) sydd wedi cymhwyso mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol, neu drefnu gyda thrydydd parti, a cheisio cymeradwyaeth i'r penodiad gan y Gronfa, er mwyn ystyried yr holl geisiadau ymddeol ar sail salwch gan aelodau gweithredol a gohiriedig. | O fewn **1 mis** o ddod yn gyflogwr y cynllun neu o fewn 1 mis o newid mewn IRMP. |
| **Polisi Disgresiwn Cyflogwr** | |
| Llunio a chyhoeddi polisïau mewn perthynas â'r holl feysydd lle y gall y cyflogwr weithredu ei ddisgresiwn o fewn y CPLlL (gan gynnwys darparu copi o'r ddogfen polisi i'r Gronfa). | Polisïau i'w cadw dan adolygiad a datganiad diwygiedig i'w gyhoeddi o fewn 1 mis o unrhyw newidiadau a ddim hwyrach na 6 mis ar ôl cael gwybod gan y Gronfa am unrhyw newid perthnasol mewn rheoliadau |
| **Dechreuwyr Newydd** | |
| I sicrhau fod gwybodaeth pensiynau wedi'i chynnwys fel rhan o unrhyw broses anwytho cyflogaeth newydd, gan gynnwys contractau cyflogaeth a llythyrau penodi, gan gynnwys cyfeirio at ganllaw'r CPLlL ar wefan y Gronfa: www.gwyneddpensionfund.wales | Fel rhan o'r contract safonol/templedi penodi |
| Sicrhau bod y ganran cyfraniadau a bandio cywir ar gyfer cyfraniadau aelodau'r CPLlL yn cael eu gweithredu ar eu cofnod cyflogres a rhoi gwybod i'r aelod am y raddfa gyfraniadau gychwynnol ac am unrhyw newidiadau dilynol. Hefyd, rhaid i'r hysbysiad roi gwybod i'r gweithiwr am yr hawl i apelio, gan gynnwys y prosesau a'r graddfeydd amser sy'n gysylltiedig. | O'r dyddiad cychwyn neu'r dyddiad y bu iddynt ymuno â'r cynllun. |
| Hysbysu'r Gronfa am ymunwyr newydd i'r cynllun drwy'r cyflwyniad i-Connect misol | O fewn **1 mis** o fynediad aelod i'r cynllun wrth iddynt ymaelodi drwy'r contract, ymaelodi'n |

| | |
|---|---|
| | awtomatig, dyddiad ail-ymuno neu etholiad i ymuno. |
| Lle mae gan yr aelod fwy nag un swydd gyda'r un Cyflogwr, bydd pob aelodaeth yn cael ei chynnal ac fe adroddir arnynt ar wahân (drwy i-Connect) | O'r dyddiad cychwyn neu o'r dyddiad ymuno â'r CPLlL neu ddechrau neu derfynu cyflogaethau ychwanegol. |
| Hysbysu'r Gronfa am unrhyw rai sy'n dewis peidio ag ymuno o fewn y tri mis cyntaf (lle mae'r cyfraniadau yn cael eu had-dalu drwy'r gyflogres) | Fel rhan o'r cyflwyniad i-Connect nesaf ar ôl derbyn yr hysbysiad optio allan |
| **Apeliadau** | |
| Dyfarnwr y Cyflogwr i hysbysu'r Gronfa pan **dderbynnir** apêl Cam 1 | O fewn **2 wythnos** o dderbyn yr apêl. |
| Dyfarnwr y Cyflogwr i hysbysu'r Gronfa o'r penderfyniad mewn perthynas ag apêl Cam 1 | O fewn **1 wythnos** o'r penderfyniad. |
| Dyfarnwr y Cyflogwr i ddarparu'r Gronfa â'r holl ddogfennaeth a ystyrir wrth benderfynu ar yr apêl Cam 1 er mwyn ei ystyried wrth ddyfarnu'r apêl yng Ngham 2 | O fewn **1 wythnos** o dderbyn y cais gan y Gronfa. |
| **Newid mewn Amgylchiadau** | |
| Rhoi'r wybodaeth a ganlyn am aelodau i'r Gronfa:<br>• ymunwyr newydd<br>• newidiadau yn amgylchiadau'r aelod a allai effeithio ar eu buddion pensiwn (e.e. symud i mewn ac allan o'r cynllun 50/50, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, mamolaeth, tadolaeth, seibiant gyrfa, ac ati).<br>• cywiro dyddiad geni / Rhif YG<br>• cyfraniadau ac enillion y gweithiwr a'r cyflogwr<br>• oriau<br>• Absenoldebau di-dâl sydd ddim yn cael eu cynnwys dan y Tâl Pensiynadwy Tybiedig (APP). | Sicrhau bod y Gronfa yn cael gwybod am unrhyw newidiadau perthnasol yn amgylchiadau aelodau drwy i-Connect o fewn pedair wythnos i'r digwyddiad |
| Sicrhau yr hysbysir aelodau o'r opsiwn i dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol ar ôl absenoldebau di-dâl cymwys. | O fewn 2 wythnos o ddychwelyd i'r gwaith |
| Sicrhau gweithrediad cywir y Tâl Pensiynadwy Tybiedig (APP) yn ystod cyfnodau o dâl gostyngol neu ddim tâl, yn unol â Chanllawiau AD a Chyflogres yr LGA. Gwybodaeth ar gael yn https://www.lgpsregs.org/employer-resources/index.php | Adolygu cymhwyster am APP ar unwaith pan fo aelod yn symud i dâl gostyngol / dim tâl. |
| Yn sgil y newidiadau posib i'r CPLlL yn sgil "Dyfarniad McCloud", gofynnwn i Gyflogwyr gadw cofnodion gwasanaeth ar gyfer pob aelod (gan gynnwys ymadawyr) o 1 Ebrill 2014: Dylai'r manylion gwasanaeth gynnwys:<br>• Statws Priodasol<br>• Oriau Cytundebol<br>• Oriau Amrywiol<br>• Newidiadau i'r gydnabyddiaeth<br>• Cyfradd Cyfraniad | Fel rhan o bolisi cadw data'r Cyflogwr |

| | |
|---|---|
| • Rhif Cyflog a/neu Rhif y Swydd<br>• Absenoldeb: Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu ac absenoldebau di-dâl a Gweithredu Diwydiannol<br><br>Rhaid i bob cyflogwr sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r Gronfa, os oes angen. | |
| **Cyfraniadau** | |
| Dychwelyd cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr i Gyfrifon Banc y Gronfa Bensiwn - yn cael ei fonitro gan y Gronfa | Erbyn y **19eg** o'r mis dilynol ar ôl gwneud y didyniad |
| Gweithredu newidiadau yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn unol â chyfarwyddyd y Gronfa o'r dyddiad a nodir gan actwari'r Gronfa | Yn unol â'r Dystysgrif Addasu Cyfraddau a gyflwynir gan actwari'r Gronfa, ar ôl pob prisiad bob tair blynedd neu ddigwyddiad perthnasol arall fel yr hysbysir amdano yn ysgrifenedig |
| Trefnu i ddidynnu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) a'u talu i'r darparwr/darparwyr AVC ac yna anfon atodlen i'r darparwr AVC | Talu erbyn y **19eg** o'r mis dilynol ar ôl gwneud y didyniad |
| Gwneud taliadau ychwanegol i'r gronfa mewn perthynas â thalu buddion yn gynnar yn sgil ymddeoliad hyblyg, diswyddo ar sail gormodedd neu ymddeoliad effeithiolrwydd busnes neu lle mae aelod yn derbyn buddion yn gynnar gyda chydsyniad Cyflogwr a lle mae straen yn codi o ran ariannu costau | O fewn **30 diwrnod** o dderbyn yr anfoneb gan y Gronfa |
| **Dychweliadau Misol i-Connect** | |
| Darparu dychweliad misol yn unol â manyleb y Gronfa sy'n ailgymodi cyfraniadau'r gweithiwr, y cyflogwr ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a delir i'r Gronfa. | Drwy'r cyflwyniad i-Connect, ddim hwyrach na'r **19eg** o'r mis yn dilyn yr un pan gafodd y cyfraniadau eu didynnu. |
| Sicrhau cywirdeb mwyaf y ffeiliau i-Connect a dderbynnir bob mis. | Llai na 5% o'r cyfrif aelodau gweithredol fel ar 1 Ebrill yn gamgymeriadau sy'n cael eu mewnbynnu i'r system gweinyddu pensiynau |
| Cywiro ffeil ddata misol lle mae wedi bod angen dychwelyd y ffeil yn sgil anghywirdebau yn y data | O fewn **15 diwrnod** o dderbyn y ffeil |
| **Aelodau sy'n Gadael Cyflogaeth - Ymadawyr cynnar** | |
| Hysbysu'r Gronfa o ddyddiad gadael yr aelod a'r rheswm am roi'r gorau i'r aelodaeth a'r holl wybodaeth berthnasol arall drwy'r Ffurflen Ymadawyr. Sicrhau bod yr holl gyflwyniadau i-Connect yn gyfredol. | O fewn 20 diwrnod o'r dyddiad gadael. Hefyd, dylid adrodd am unrhyw un sy'n gadael drwy'r cyflwyniad i-Connect erbyn y 19eg o'r mis dilynol.<br><br>Rhaid i'r cyflwyniad i-Connect nodi'n glir y rheswm dros adael. |
| **Marwolaeth mewn Gwasanaeth a Salwch Terfynol** | |
| Hysbysu'r Gronfa ar unwaith pan fo aelod yn marw drwy'r Ffurflen Ymadawyr, neu pan fo aelod yn dioddef o salwch terfynol posib ac i ddarparu manylion am y berthynas agosaf. | O fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl i'r berthynas agosaf gysylltu. |
| **Ymddeoliad Gwirioneddol** | |
| Cyflwyno'r ffurflen ymadawyr briodol i'r Gronfa. | O leiaf un mis cyn yr ymddeoliad lle bo'n bosib, ond ymhob achos ddim hwyrach na 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad ymddeol. |

| | |
|---|---|
| **Ymddeoliad ar sail Salwch** | |
| Pennu, yn seiliedig ar dystiolaeth feddygol ac ar gyngor un o Ymarferwyr Cofrestredig Meddygol Annibynnol (IMRP) yr Awdurdodau Gweinyddol, p'un a oes dyfarniad ar sail salwch i'w wneud a phennu ar ba haen y gwneir hynny, haen 1, 2 neu 3 | Cyflwyno'r ffurflen briodol i'r Gronfa o leiaf un mis cyn yr ymddeoliad lle bo modd, ond ymhob achos ddim hwyrach na 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad ymddeol. |
| Cadw cofnod o'r holl ofynion salwch Haen 3, yn benodol o ran yr adolygiad 18 mis o'u sgôp ar gyfer cyflogaeth gydag enillion ac unrhyw benodiad dilynol gyda IMRP am dystysgrif feddygol bellach. Hysbysu'r Gronfa pan a phryd y dylai'r pensiwn ddod i ben. | Cyn gynted ag y gwneir penderfyniad. |
| **Contractio gwasanaethau a swyddogaethau i rywun allanol** | |
| Hysbysu'r Gronfa o unrhyw wasanaethau sy'n cael eu contractio i rywun allanol, fydd yn cynnwys trosglwyddo staff gyda TUPE i sefydliad arall | Hysbysu'r Gronfa ymhen pum diwrnod gwaith o'r penderfyniad i gontractio gwasanaeth neu swyddogaeth i rywun allanol. |
| Sicrhau bod gan fidwyr fynediad at ganllawiau perthnasol sy'n cynnwys, ond sydd ddim yn gyfyngedig i'r canllawiau PLSA "Navigating entry into the LGPS: For Local Government Contractors", sydd ar gael oddi ar wefan y Pensions and Lifetime Savings Association: www.plsa.co.uk | Pan benderfynir contractio i rywun allanol. |
| Hysbysu'r Gronfa o'r swyddogion strategol a gweithredol arweiniol o ran allanoli darpariaeth gwasanaeth lle y gall darpar gontractwr wneud cais i ymuno â'r Gronfa o ganlyniad i ad-drefnu neu drosglwyddiad TUPE. | Pan wneir penderfyniad ar y tendr llwyddiannus. |
| Gweithio â Swyddogion y Gronfa i drefnu ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Mynediad cyn dyddiad cychwyn y contract. | Isafswm o **2 fis** cyn dyddiad y contract. |
| Hysbysu'r Gronfa am newidiadau / ymestyniadau / terfyniad trefniadau gyda chontractwr. | Cyn gynted ag y gwneir penderfyniad. |
| Cynorthwyo'r Gronfa i sicrhau y cydymffurfir â thelerau mynediad y contractwr fel cyflogwr y cynllun (Cytundeb Mynediad). | Hysbysu'r Gronfa Bensiwn os yw telerau'r Cytundeb Mynediad wedi cael eu torri. |
| **Newid darparwr cyflogres** | |
| Cadarnhau'r penderfyniad i newid i ddarparwr cyflogres newydd ynghyd â manylion cyswllt y darparwr newydd. | Cyn gynted â phosib a ddim hwyrach na **6 wythnos** cyn trosglwyddo'r dyletswyddau a'r swyddogaethau |
| Sicrhau bod gofyn i'r contract cyflogres newydd ddarparu data drwy i-Connect. Sicrhau bod yr holl gyflwyniadau i-Connect hyd at y trosglwyddiad cyfrifoldebau yn cael eu gwneud gan y darparwr presennol yn unol â'r PAS. Sicrhau bod y cyflenwr newydd yn darparu cyfeirnodau cyflogres (penodol i swydd) i'r Gronfa. | Cyn gynted â phosib a ddim hwyrach nag 20 diwrnod gwaith cyn y cyflwyniad i-Connect cyntaf. |
| **Cyfathrebu** | |
| Sicrhau bod cynnwys a gymeradwywyd gan y Gronfa yn cael ei gynnwys ymhob cyfathrebiad | Adolygu cynnwys y CPLlL yn flynyddol neu ymhen **2 wythnos** o dderbyn gwybodaeth am |

| | |
|---|---|
| ynghylch contractau / penodiadau / addasiadau ar gyfer swyddi sy'n gymwys ar gyfer y CPLlL, gan gynnwys cyfarwyddiadau at cronfabensiwngwynedd.cymru | addasiadau i'r geiriad sydd wedi'i gymeradwyo gan y Gronfa. |
| Dosbarthu unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y Gronfa i aelodau'r cynllun / darpar aelodau'r Cynllun. Cyfeirio aelodau cynllun newydd neu ddarpar aelodau at wefan y Gronfa: cronfabensiwngwynedd.cymru | O fewn **2 wythnos** o'i dderbyn.<br><br>O fewn **2 wythnos** o gychwyn y gyflogaeth neu newid yn amodau'r contract. |
| Ymateb i ymholiadau gan y Gronfa | O fewn **10 diwrnod gwaith** o dderbyn ymholiad oni bai y nodir fel arall. |
| **Amrywiol** | |
| Taliadau mewn perthynas â gwaith FRS102 ac IAS19 a wneir ar ran Cyflogwyr gan y Gronfa ac Actwari'r Gronfa. | **Taliad ar unwaith pan y** derbynnir yr anfoneb gan y Gronfa. |
| Taliadau mewn perthynas â'r holl waith arall a wneir ar ran y Cyflogwr gan Actwari'r Gronfa a'r gwaith o sicrhau ansawdd data cysylltiedig a wneir gan y Gronfa. | **Taliad ar unwaith pan y** derbynnir yr anfoneb gan y Gronfa. |
| Talu anfonebau a gyflwynir gan y Gronfa am wasanaethau penodol a ddarparwyd, yn brydlon. | **Taliad ar unwaith pan y derbynnir yr anfoneb gan y Gronfa.** |
| Ymateb i ymholiadau ansafonol gan y Gronfa. | O fewn **10 diwrnod gwaith** o dderbyn ymholiad oni bai y nodir fel arall. |
| Gwneud taliad am gostau ychwanegol i'r Gronfa sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â safonau perfformiad cyflogwr y cynllun. | **Taliad ar unwaith pan dderbynnir yr anfoneb gan y Gronfa.** |
| Ymateb i ymholiadau gan y Gronfa yn ymwneud â Thor-cyfraith. | O fewn **1 wythnos** o'r cais. |

## 8. Rolau a Chyfrifoldebau'r Gronfa Bensiwn

**Beth yw prif gyfrifoldebau'r Gronfa Bensiwn?**

Prif gyfrifoldeb y Gronfa Bensiwn yw cyfrifo a thalu buddion yn unol â rheoliadau'r CPLlL. Ymysg y cyfrifoldebau allweddol eraill mae:

- cadw cofnodion a data pensiwn cywir
- darparu datganiadau buddion blynyddol i'r holl aelodau sy'n cyfrannu ac aelodau gohiriedig
- darparu P60 i aelodau sy'n bensiynwyr
- darparu datganiadau cynilion pensiwn i'r aelodau hynny sy'n mynd dros y lwfans blynyddol a ganiateir
- paratoi a chyhoeddi polisi disgresiynau a'i gadw'n gyfredol
- penodi dyfarnwr enwebedig ar gyfer apelau cam 1 a cham 2 a wneir dan yr IDRP

I wneud y rhain yn llwyddiannus, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn disgwyl:

- darparu cyflogwyr â phwynt cyswllt drwy ei dîm Cefnogi Cyflogwyr a'r gwasanaeth Llinell Gymorth i Gyflogwyr
- cadw cyflogwyr yn hysbys am unrhyw faterion a allai effeithio arnynt drwy ei ddulliau a'i strategaeth gyfathrebu.
- darparu neu hwyluso hyfforddiant i bob cyflogwr newydd neu'r swyddogion awdurdodedig hynny sy'n newydd i'r CPLlL neu GMPF
- cynnal rhan o wefan y GMPF sy'n cynnwys gwybodaeth i gefnogi cyflogwyr
- cynnal cyfarfod diweddaru blynyddol lle y gall cyflogwyr ddod i wybod am berfformiad y GMPF a dysgu am y gwaith sy'n cael ei wneud
- cynnal arolygon rheolaidd a chynnal sesiynau adborth i gael barn cyflogwyr a gwneud gwelliannau
- rhoi gwybod i gyflogwyr p'un a oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun, unrhyw heriau gweinyddol neu unrhyw beth tebyg y gallant fod angen bod yn ymwybodol ohono
- gwneud tasgau penodol ar ran cyflogwr lle mae'n rhesymol ac yn dderbyniol i wneud hynny
- archwilio cyflogwyr o bryd i'w gilydd, cynnal gwiriadau ar hap a gofyn am dystiolaeth i gefnogi gweinyddiaeth pensiwn effeithiol

**Pwy sy'n rheoli Cronfa Bensiwn Gwynedd a sut?**

Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod y Gronfa yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.  Mae hefyd yn nodi'r disgwyliadau ynghylch perfformiad gweinyddol.  Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ymgymryd â rôl graffu ac yn adolygu cydymffurfiaeth â'r rheolau.

Wrth asesu perfformiad gweinyddol, bydd y pwyllgor yn ystyried:

- perfformiad yn erbyn targedau statudol a dangosyddion cyflawni gwasanaeth
- cost gweinyddu
- adroddiadau meincnodi i asesu perfformiad y Gronfa o gymharu â chronfeydd pensiwn eraill
- y gallu i recriwtio i swyddi allweddol
- nifer y cwynion a'r anghydfodau ffurfiol a dderbyniwyd a'u deilliannau
- deilliannau'r archwiliad
- gallu cyflawni prosiectau ar amser ac i'r gyllideb
- yr adborth a dderbyniwyd gan ran-ddeiliaid drwy arolygon, y wefan a sianelau eraill
- yr adborth a dderbyniwyd gan staff

Y dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir i helpu i fesur cyflwyniad y gwasanaeth

Mae'r rheoliadau CPLlL a'r ddeddfwriaeth pensiwn drosfwaol yn cynnwys y targedau statudol y mae'n rhaid i'r Gronfa eu bodloni. Yn ogystal, mae Pwyllgor y Gronfa wedi gosod rhai safonau perfformiad sy'n seiliedig ar lefel y gwasanaeth y mae disgwyl iddo ei gyflawni i aelodau.

Mae manylion y safonau hyn a'n perfformiad yn eu herbyn yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol.

**Sut mae'r perfformiad yn cael ei fonitro?**

Bydd Pwyllgor y Gronfa yn monitro perfformiad y Gronfa a pherfformiad ei gyflogwyr yn y ffyrdd a ganlyn:

- Drwy adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Pensiynau, Gweithgorau perthnasol a'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- Drwy adrodd a monitro dyddiol cyffredinol gan reolwyr a swyddogion y Gronfa
- Drwy adroddiadau a ddarparwyd i gyflogwyr yn tynnu sylw at lefelau perfformiad
- Drwy ddefnyddio'r tîm Archwilio Mewnol i adolygu prosesau a rheoliadau
- Drwy gymharu perfformiad yn erbyn cronfeydd pensiwn CPLlL eraill, meincnodi data a llwyth gwaith allweddol
- Drwy ddilyn camau esgoli lle mae diffyg cydymffurfiaeth
- Drwy adolygu tor-cyfraith y Gronfa - logio bob chwarter
- Drwy gynnal grwpiau ffocws a fforymau lle bo hynny'n briodol

Bydd y Gronfa yn monitro perfformiad y cyflogwyr ar draws yr ardaloedd allweddol a ganlyn:

- Cyflwyno dychweliadau data misol
- Talu cyfraniadau a thaliadau eraill sy'n ddyledus
- Nifer yr ymholiadau, ynghyd â graddfa ac ansawdd yr ymatebion
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r achosion IDRP a gadarnheir yn erbyn y cyflogwr
- P'un a yw'r Gronfa wedi derbyn copi o bolisi disgresiynau presennol y cyflogwr ai peidio
- P'un a yw cyflogwr wedi methu â hysbysu'r Gronfa am newidiadau neu ddigwyddiadau allweddol o fewn amserlen rhesymol ai peidio

Mae'r tabl hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Gweinyddu:

| **Swyddogaeth/Tasg** | **Targed Perfformiad** |
|---|---|
| **Llywodraethu** | |
| Adolygu'r PAS yn rheolaidd ac ymgynghori â holl gyflogwyr y cynllun | Bob tair blynedd, adolygu'r PAS a'i adolygu ar ôl unrhyw newidiadau perthnasol yng nghyflwyniad y gwasanaeth neu'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r PAS ac ymgynghori â'r holl Gyflogwyr ynghylch unrhyw newidiadau |
| Bydd y Cronfeydd yn adolygu Datganiadau Strategaeth eu Cronfa ymhob prisiad (neu ddigwyddiad perthnasol), ar ôl ymgynghori â Chyflogwyr ac Actwari eu Cronfa | Cyhoeddi erbyn 31 Mawrth yn dilyn dyddiad y prisiad, neu fel bo'r angen |
| Adolygu Polisi Cyfathrebu'r Gronfa | Adolygu a chyhoeddi yn flynyddol o fewn 30 diwrnod pan fo unrhyw adolygiad i'r polisi yn cael ei gytuno gan y Pwyllgorau Cronfa Bensiwn |
| Adolygu Datganiad Llywodraethu a Chydymffurfiaeth y Gronfa | Adolygu a chyhoeddi yn flynyddol o fewn 30 diwrnod pan fo unrhyw adolygiad i'r polisi yn cael ei gytuno gan y Pwyllgorau Cronfa Bensiwn |

| | |
|---|---|
| Dylai'r Gronfa lunio a chyhoeddi polisïau mewn perthynas â'r holl feysydd lle y gall y cyflogwr weithredu ei ddisgresiwn o fewn y CPLlL | Adolygu a chyhoeddi yn flynyddol o fewn 30 diwrnod pan fo unrhyw adolygiad i'r polisi yn cael ei gytuno gan y Pwyllgorau Cronfa Bensiwn |
| Hysbysu'r Cyflogwr o fater sy'n ymwneud â pherfformiad anfoddhaol y Cyflogwr | Os na cheir unrhyw ymateb i gais Cronfa Bensiwn Gwynedd am weithredu o fewn 10 diwrnod; ail gais wedi'i farcio "esgoli" i'w gyflwyno; os na cheir unrhyw ymateb ymhen 10 diwrnod, mae'r mater wedi'i gyfeirio i adfer costau |
| Hysbysu'r Cyflogwr yn ysgrifenedig o benderfyniad i adennill y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â pherfformiad anfoddhaol y Cyflogwr | Ar ôl 10 diwrnod gwaith o'r ail gais am weithredu a methiant parhaus i wella'r perfformiad fel sy'n ofynnol |
| **Gwybodaeth Aelodau/Ansawdd Data a Gweinyddiaeth Gyffredinol** | |
| Darparu cefnogaeth i Gyflogwyr drwy dudalen benodol ar y wefan; newyddlen chwarterol; fforymau; cyfarfodydd chwarterol; sesiynau hyfforddi chwarterol a bwletinau a hysbysiadau ad hoc | Gwybodaeth yn cael ei rhoi bob chwarter i gynrychiolydd enwebedig |
| Hysbysu Cyflogwyr ac aelodau o newidiadau i reoliadau'r CPLlL | O fewn 90 diwrnod o'r newid rheoleddiol |
| Cynhyrchu Datganiadau Buddion Blynyddol (ABS) i aelodau gweithredol a gohiriedig fel ar 31 Mawrth bob blwyddyn | Erbyn 31 Awst yn dilyn diwedd y flwyddyn |
| Cynhyrchu a chyhoeddi Datganiadau Cynilion Pensiwn (PSS) i aelodau sydd wedi mynd dros eu lwfans blynyddol | Erbyn 6 Hydref ar ôl diwedd y flwyddyn (yn amodol ar dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol gan y Cyflogwr) |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | |
| Creu cofnodion aelodau cywir ar y system gweinyddu pensiynau ar ôl cael hysbysiad gan gyflogwr am ymunwr newydd â'r CPLlL. | O fewn 40 diwrnod o'r hysbysiad i-Connect |
| Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cysylltu â'r holl aelodau newydd, gan ddarparu allwedd datgloi ar gyfer yr elfen 'Hunan-wasanaeth Aelodau' ac ymateb i geisiadau'r aelodau am allwedd datgloi. | O fewn 30 diwrnod o'r hysbysiad i-Connect am ymunwr newydd / cais aelod |
| Llythyr cychwynnol/cydnabyddiaeth o farwolaeth aelod gweithredol/gohiriedig/pensiynwr | O fewn 5 diwrnod o'r hysbysiad |
| Marwolaethau - Llythyr yn hysbysu ynghylch swm buddion y dibynyddion | O fewn 10 diwrnod o gael y ffurflenni a'r dogfennau a gwblhawyd |
| Ymddeoliadau - Llythyr yn rhoi hysbysiad o amcangyfrif o'r buddion ymddeol | O fewn 15 diwrnod o'r cais (lle mae'n ymarferol, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cyflwyno amcangyfrifon ymddeol ar unwaith i aelodau drwy'r Hunan-wasanaeth Aelodau) |
| Ymddeoliadau - Llythyr yn rhoi amcangyfrif o'r buddion ymddeol gwirioneddol | O fewn 15 diwrnod o ddyddiad ymddeol (diwethaf) yr aelod neu Gronfa Bensiwn Gwynedd yn derbyn yr holl ffurflenni/dogfennau sydd wedi'u cwblhau |
| Ymddeoliadau - prosesu a thalu'r grant ymddeol lwmp swm | O fewn 15 diwrnod o ddyddiad ymddeol (diwethaf) o dderbyn yr holl ffurflenni/dogfennau sydd wedi'u cwblhau neu'r dyddiad ymddeol |
| Gohirio - Cyfrifo a hysbysu am fuddion gohiriedig | O fewn 30 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad Cyflogwr |

| | |
|---|---|
| Trosglwyddo allan - Llythyr yn manylu ar y dyfynbris trosglwyddo allan | O fewn 10 diwrnod o dderbyn y ffurflen gais wedi'i chwblhau |
| Trosglwyddo i mewn - Llythyr yn manylu ar y dyfynbris trosglwyddo i mewn | O fewn 10 diwrnod o dderbyn y manylion trosglwyddo gan y cynllun sy'n ei anfon |
| Ad-dalu - prosesu a thalu ad-daliad | O fewn 10 diwrnod (diwethaf) o dderbyn y ffurflenni/dogfennau wedi'u cwblhau neu'r dyddiad pan maent yn daladwy |
| Dyfynbris ysgariad - Llythyr yn manylu ar werth cyfatebol ariannol y buddion a buddion eraill | O fewn 3 mis o'r cais |
| Setliad ysgariad - Llythyr yn manylu ar weithrediad y gwerth cyfatebol ariannol a chais am orchymyn rhannu pensiwn | O fewn 3 mis o dderbyn y gorchymyn rhannu pensiwn |
| Darparu cydnabyddiaeth ac ateb i aelodau'r cynllun/Cyflogwyr/cynrychiolwyr personol/dibynyddion a phersonau awdurdodedig eraill | Ateb ymholiadau syml o fewn 5 diwrnod gwaith o'u derbyn ac o ran ymholiadau cymhleth: cydnabod eich bod wedi'u derbyn ymhen 5 diwrnod gwaith o'u derbyn ac ymateb iddynt ymhen 10 diwrnod gwaith. |

Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r tasgau uchod wedi'u mesur o'r dyddiad pan mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn derbyn yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gwblhau'r dasg ac mae'n cael ei fynegi mewn "diwrnodau gwaith"